OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1338 (Cy.140)

Y PROFFESIWN MEDDYGOL, CYMRU

Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*21 Mai 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*22 Mai 2008*
Yn dod i rym - -	*17 Mehefin 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2 o Ddeddf Erthylu 1967(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 17 Mehefin 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Erthylu 1991(**2**).

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 2 (dehongli) o'r prif Reoliadau, mewnosoder y diffiniadau canlynol yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

> ""the Statistics Board" means the Statistics Board established under section 1 of the Statistics and Registration Service Act 2007(**3**);
>
> "the Chief Medical Officer for Wales" means the Chief Medical Officer to the Welsh Assembly Government;".

(**1**) 1967 p.87 ("y Ddeddf"). Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adran 2 o'r Ddeddf o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 1991/499 fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2002/2879 (Cy.275).

(**3**) 2007 c. 18.